

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



Dyddiad y Cyfarfod

24 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 5: CYLLIDEB GWE 2020/21 - ADOLYGIAD CHWARTER 3

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad Adolygiad 3ydd Chwarter o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2020/21.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Darparwyd diweddariad i aelodau'r Cydbwyllgor ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidebol 2020/21. Diweddarwyd ar y tanwariant net, ond nodwyd y gall fod her ariannol yn 2021/22 oherwydd ansicrwydd ynglŷn â grantiau penodol. Felly, awgrymwyd a derbyniwyd dylid neilltuo'r gronfa tanwariant am y tro, cyn ystyried heriau ariannol posib 2021/22.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



Dyddiad y Cyfarfod

24 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 6: CYLLIDEB GWE 2021/22

PENDERFYNIAD

- a) Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2021/22 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1.
 - b) Gofyn i'r Rheolwr Gyfarwyddwr, mewn ymgynghoriad gyda'r Bwrdd Rheoli, i gyflwyno papur yn yr hydref yn adolygu model gwaith GwE.
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen penderfyniad ffurfiol gan y Cydbwyllgor i fabwysiadu cyllideb cytbwys ar gyfer y flwyddyn 2021/22. Nodwyd fod effaith chwyddiant wedi'i amcangyfrif a'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol, a bod cyfraniadau ariannol yr Awdurdodau wedi'i addasu yn y modd arferol.

Codwyd y mater o fodel gwaith GwE yn dilyn y pandemig a chwestiynau ynghylch parhau i weithio o fewn y swyddfeydd ac adeiladau. Yn dilyn hyn cytunwyd y byddai angen adolygiad ar fodel gwaith GwE.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



Dyddiad y Cyfarfod

24 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 7: ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN

PENDERFYNIAD

Cydbwyllgor yn nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gofynnwyd am sylwadau yr aelodau ar yr adroddiad sy'n cynnwys canfyddiadau o'r adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ymateb i gais gan y Gweinidog Addysg.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



PWNC

**Eitem 8: RHAGLEN WAITH GWE - TYMOR YR HYDREF 2020
DIWEDDARIAD & BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL**

PENDERFYNIAD

Cydbwyllgor yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad, rhaglen waith GwE a'r blaenoriaethau drafft ar gyfer 2021-22, a adolygir yn gyson i ymateb i sefyllfa Covid-19 a chanllawiau a rheoliadau'r llywodraeth.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mewn ymateb i COVID-19, maerhaglen waith GwE wedi newid i gyd fynd â'r newidiadau a wynebir ysgolion a'r system addysg. Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi parhau i addasu eu gwaith, gan ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID-19.

O ganlyniad i'r newidiadau, mae angen adolygu'r blaenoriaethau drafft yn rheolaidd.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



Dyddiad y Cyfarfod

24 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 9: CEFNOGI YSGOLION

PENDERFYNIAD

Cydbwyllgor yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad am brif ffocws gwaith GwE dros y ddau dymor nesaf.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ein holl ysgolion a'u cymunedau. Bydd prif ffocws GwE dros y ddau dymor nesaf yn cael ei saernio ar gefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion i adnabod y llwyddiannau a'r hyn sydd i weld yn gweithio'n dda a beth sydd angen parhau i gael sylw.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



Dyddiad y Cyfarfod

24 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 10: Y DAITH DDIWYGIO A DYSGU PROFFESIYNOL

PENDERFYNIAD

Cydbwyllgor yn derbyn a chymeradwyo cynnwys yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyflwynwyd gwybodaeth ynglŷn â'r cynnig proffesiynol ar gyfer cefnogi Cwricwlwm i Gymru i aelodau'r Cydbwyllgor.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



Dyddiad y Cyfarfod

24 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 11: DYSGU O BELL AC YMGYSYLLTIAD RHINIEN/GOFALWYR

PENDERFYNIAD

- a) Cydbwyllgor yn derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.
 - b) Cefnogi'r strategaeth a'r gefnogaeth sydd mewn lle i ysgolion mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni/gofalwyr a dysgu o bell yng Ngogledd Cymru
-

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

O ganlyniad i'r amharu bu ar y system addysg o ganlyniad i COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod disgwyliadau clir ar ysgolion (Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau: coronafeirws diweddarwyd 15 Ionawr 2021) o ran y blaenoriaethau ar gyfer y dysgu mewn ysgolion a lleoliadau yn ystod yr ymateb i COVID-19 ac wrth inni symud tuag adfer.

Rhannwyd adroddiad gyda'r Cydbwyllgor yn nodi strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion mewn perthynas â dysgu o bell.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



Dyddiad y Cyfarfod

24 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 12: RHAGLENNI DYSGU CARLAM AR GYFER Y GYMRAEG

PENDERFYNIAD

Cydbwyllgor yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu rhaglenni dysgu carlam i blant a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg iaith gyntaf.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Adnabuwyd bod pryderon yn codi ynghylch y Gymraeg a'i defnydd ymysg disgyblion o ganlyniad i fod yn absennol o'r dosbarth dros gyfnod COVID-19.

Amlygwyd hyn yn adroddiad thematig Estyn '*Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac unedau cyfeirio at ymateb i COVID-19*', a gyhoeddwyd yn Ionawr 2021, fod pryder fod disgyblion yn colli eu Cymraeg, ac yn enwedig rheini o gartrefi ble nad y Gymraeg yw iaith yr aelwyd.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GwE



Dyddiad y Cyfarfod

24 Chwefror 2021

PWNC

Eitem 13: CALENDR CYFARFODYDD 2021/2022

PENDERFYNIAD

Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r calendr cyfarfodydd fel nodir yn atodiad 1.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bydd y Cyd-bwyllgor yn cyfarfod yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion y Gwasanaeth yn unol ag amserlen y Gwasanaeth ar yr amod bod isafswm o dri chyfarfod mewn blwyddyn, gydag un ohonynt yn cael ei nodi fel y cyfarfod cyffredinol blynyddol.

Cynigwyd amserlen ddrafft i'w mabwysiadu.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
